Taflen waith 3 – Diemwnt Grym Arlywyddol

Ysgrifennwch rif pob datganiad yn y blwch mwyaf priodol ar y diemwnt.

1. Arweinydd y wlad mwyaf pwerus yn y byd, yn economaidd ac yn filitaraidd, yw'r arlywydd.
2. Yr arlywydd ydy'r unig ddeiliad swydd a etholwyd yn genedlaethol.
3. Trwy'r anerchiad agoriadol a'r areithiau ar gyflwr y wlad (state of the union), y mae'r arlywydd yn gosod cyfeiriad polisi tramor a chartref y wlad.
4. Yr arlywydd ydy pencadfridog y lluoedd arfog ac mae hefyd yn rheoli stordy arfau niwclear y genedl.
5. Disgwylia'r genedl arweiniad gan ei harlywydd ar adegau pan deimla dan fygythiad.
6. Mae gwiriadau'r Gyngres ar yr arlywydd yn llai effeithiol pan reolir yr adran weithredol a'r corff deddfwriaethol gan yr un blaid.
7. Fel pennaeth y wlad, mae'r arlywydd yn ei chanol hi o safbwynt sylw'r wasg a gwasanaethau newyddion.
8. Ar gyfartaledd, yn hanesyddol, mae hyder y cyhoedd yn y Gyngres yn is na'i hyder yn yr arlywyddiaeth.
9. Y Gyngres yn hytrach na'r arlywydd sydd i'w gweld yn gyfrifol ar adeg o gaethiwed (gridlock) llywodraethol.

© Hawlfraint y Goron 2018

Llywodraeth a gwleidyddiaeth UDA

Mwyaf



Lleiaf

© Hawlfraint y Goron 2018